

Car Trydan Nissan Leaf Ail-Law

Mae car trydan Nissan Leaf ail-law yn gar ymarferol, perffaith ar gyfer mynyddoedd Eryri, Gogledd Cymru a thu hwnt.

Ffeithiau Allweddol

Model: Nissan Leaf (24 kWh)
Cost Ail-Law: £8000-9000
Milltiroedd: 20,000 – 30,000
Blwyddyn: 2014/2015
Pellter gyrru go iawn: 70-90 milltir.
Batri yn para: 150-200k milltir

Nodweddion eraill: 5 sedd, 5 drws, Seddi ac olwyn llywio wedi eu gresogi. A/C, Digon o le, beiciau, caiac bach yn y cefn.



Rapid charge (e.e Traffordd) 50kW CHAdeMO 80% mewn 20 munud	Charge araf (e.e Adref) Dau math ar gael: 3kW neu 6kW o fewn y car. 3kW: 80% mewn 5 awr 6kW: 80% mewn 2.5 awr
--	---

Cost ac arbedion

Yn gymharol i yrru 10,000 milltir y flwyddyn mewn car petrol 45mpg, gallai car trydan arbed £850 y flwyddyn mewn cost tanwydd, £140 y flwyddyn mewn treth ffordd a £100 y flwyddyn mewn costau cynnal a chadw. Cyfanswm arbediad o £1090 y flwyddyn.

Os ydych chi'n ystyried prynu car petrol ail-law yn y dyfodol agos am £3-4k fel Ford Fiesta 2013, gedrir gwario chydig yn fwy ar gar trydan ail-law Nissan Leaf a arbed y gwahaniaeth o fewn 4 blynedd a darparu £10k o arbedion dros 100,000 milltir.

Adeiladu dyfodol ynni glân

Mae ceir trydanol yn ateb allweddol sy'n ymddangos yn y rhan fwyaf o senarios sy'n dangos sut y gallwn rhedeg ein bywydau gydag egni lân gynaliadwy. Gwnânt ddefnydd effeithlon o ynni trydanol y gellir ei gynhyrchu o ynni ddi-garbon.

Rydym yn gwario llawer iawn o arian ar geir, petrol a thanwydd diesel bob blwyddyn sy'n ariannu diwydiant llygredig sy'n niweidio ein iechyd trwy lygredd aer ac ein planed yn hirdymor trwy newid hinsawdd. Mae gyrru car trydan a cargo adref, gan ddefnyddio cyflenwr trydan gwyrdd, yn helpu i sicrhau bod ein arian yn mynd i ariannu dyfodol gwell.